# Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod yn y Dyfodol

# Cynnig Heb Ddyddiad Trafod a gyflwynwyd ar 03 Ebrill 2003

### NNDM1472 Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cyfarwyddo'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, gan weithredu o dan y Local Education Authority (Payment of School Expenses) Regulations 1999, i gyflwyno is-ddeddfwriaeth ddrafft yn nodi'r safonau gofynnol y mae’n rhaid i awdurdodau lleol eu bodloni wrth ddarparu cymorth ariannol i gynorthwyo rhieni i dalu am y dillad priodol pan fydd eu plant yn cychwyn yn yr ysgol uwchradd.

2. Yn nodi mai effaith y rheoliadau hyn fyddai sicrhau’r safonau gofynnol o ran cymorth i rieni ledled Cymru, gan sicrhau yn arbennig bod rhieni ar incwm isel yn derbyn cymorth waeth pa awdurdod lleol y maent yn byw ynddo.